**CYSTADLEUAETH FATHEMATEGOL GENEDLAETHOL 2026**
**ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8**

# TAFLEN ATEB

Amser: Un awr.

Awgrymir i chi dreulio tua 40 munud ar Adran A a thua 20 munud ar Adran B.

Ni chaniateir defnyddio cyfrifiannell.

Nodwch eich atebion isod.

| | |
|---|---|
| Ysgol: | Dosbarth: |
| Enw: Atebion | |

## Adran A

Rhowch gylch o amgylch llythyren yr ateb cywir ar gyfer pob cwestiwn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) | a | b | **c** | ch | d |
| 2) | **a** | b | c | ch | d |
| 3) | a | b | c | **ch** | d |
| 4) | a | b | c | ch | **d** |
| 5) | a | b | c | ch | **d** |
| 6) | a | **b** | c | ch | d |
| 7) | a | **b** | c | ch | d |
| 8) | a | b | c | **ch** | d |
| 9) | a | b | c | ch | **d** |
| 10) | a | b | c | **ch** | d |
| 11) | a | b | **c** | ch | d |

Cyfanswm: ____ / 11

## Adran B

Gadewch yn wag.

| | |
|---|---|
| A | |
| B1 | |
| B2 | |
| Cyf | |

**CYSTADLEUAETH FATHEMATEGOL GENEDLAETHOL 2026**
**ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8**

## C W E S T I Y N A U

### Adran A

1) Pa un o'r rhifau canlynol sy'n rhif sgwâr ac yn rhif ciwb?

a) 8 b) 27 c) 64 ch) 81 d) 100

8×8
4×4×4

2) Faint yw'r gwahaniaeth rhwng hanner tri chwarter 80 a thri chwarter hanner 80?


a) 0 b) 20 c) 40 ch) 60 d) 80

30−30=0

$\frac{1}{2} \times \frac{3}{4} \times 80 = \frac{1}{2} \times 60 = 30$

$\frac{3}{4} \times \frac{1}{2} \times 80 = \frac{3}{4} \times 40 = 30$

3) Os yw bob rhanbarth llwyd isod yn sgwâr, beth yw cyfanswm arwynebedd yr ardaloedd gwyn?




12cm

48+48=96


a) 16 cm$^2$ b) 48 cm$^2$ c) 64 cm$^2$ ch) 96 cm$^2$ d) 144 cm$^2$

Mewn 7 diwrnod: Mercher
70
77
84
91
98 Mercher
99 Iau
100 Gwener

4) Os yw heddiw yn ddydd Mercher, pa ddiwrnod fydd hi mewn 100 diwrnod?

a) Dydd Llun b) Dydd Mawrth c) Dydd Mercher ch) Dydd Iau d) Dydd Gwener

5) Mae pecyn safonol o hadau yn cynnwys 50 hedyn.
Mae pecyn arbennig yn cynnwys 20% yn fwy o hadau na'r pecyn safonol.
Prynodd Nansi becyn arbennig ac mae 80% o'i hadau'n egino.
Faint o blanhigion fydd gan Nansi?





a) 10 b) 16 c) 40 ch) 44 d) 48

50: 10% 5
20% 10
50+10=60

60 10% 6
80% 48


6) Mae'r diagram isod yn dangos sgwâr y tu mewn i driongl hafalochrog. Beth yw maint ongl $x$?




$90 + 75 = 165$
$180 - 165 = 15$

a) 10° b) 15° c) 20° ch) 25° d) 30°

7) Mae siop yn gwerthu sebon mewn bocsys du a bocsys gwyn.



£10 £8.75 ?

Mae un bocs du a dau focs gwyn yn costio £10.

Mae dau focs du ac un bocs gwyn yn costio £8.75.

Adio: 3 du, 3 gwyn = £18.75
↓ ÷3
1 du, 1 gwyn = £6.25

Beth yw cyfanswm cost un bocs du ac un bocs gwyn?

a) £6 b) £6.25 c) £6.50 ch) £6.75 d) £7


8) Arwynebedd y triongl llwyd isod yw 15 cm². Beth yw arwynebedd y petryal?

$\frac{\text{Sail} \times \text{uchder}}{2} = 15$

$\frac{6 \times \text{uchder}}{2} = 15$

$6 \times \text{uchder} = 30$

$\text{uchder} = 5\text{cm}$




16
×5
80
3

a) 16 cm² b) 40 cm² c) 65 cm² ch) 80 cm² d) 160 cm²


9) Mae canolrif, cymedr a modd y pum rhif yma'n hafal. Beth yw'r rhif sydd ar goll?


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9 | 9 | 7 | 9 | ? |

a) 8.5 b) 9 c) 10 ch) 10.5 d) 11

Modd = 9
Cyfansum = 5×9
= 45
9+9+7+9 = 34
45 − 34 = 11


10) Sawl petryal sydd yma, gan gyfrif y sgwariau hefyd?







a) 14 b) 28 c) 32 ch) 36 d) 40

11) Yn ddiweddar bu grŵp o ddisgyblion yn llenwi'r arolwg isod.




Roedd chwarter y disgyblion yn cefnogi Caerdydd.
Roedd pedair gwaith yn fwy o ddisgyblion yn cefnogi Wrecsam o'i gymharu â'r nifer oedd yn cefnogi Abertawe.
Roedd pawb wedi dewis union un o'r tri thîm.
Wrth lunio siart cylch, pa ongl sydd angen ei llunio ar gyfer Wrecsam?

a) 90° b) 124° c) 216° ch) 232° d) 270°

360° ÷ 4 = 90°
90° × 3 = 270°
270° ÷ 5 = 540° ÷ 10
= 54°
54° × 4 = 216°

## Adran B

1) Mae $1^3 + 2^3$

$= 1 + 8$

$= 9$

sydd yn rhif sgwâr ($3^2$).

a) Pa rif sy'n sgwario i roi $1^3 + 2^3 + 3^3$?

$= 1 + 8 + 27$

$= 36$

$= 6^2$

Mae 6 yn sgwario i roi $1^3 + 2^3 + 3^3$

b) Beth am $1^3 + 2^3 + 3^3 + 4^3$?

$= 1 + 8 + 27 + 64$

$= 100$

$= 10^2$

Mae 10 yn sgwario i roi $1^3 + 2^3 + 3^3 + 4^3$

c) Beth am $1^3 + 2^3 + 3^3 + 4^3 + 5^3$?

$= 1 + 8 + 27 + 64 + 125$

$= 100 + 125$

$= 225$

$= 15^2$

Mae 15 yn sgwario i roi $1^3 + 2^3 + 3^3 + 4^3 + 5^3$

ch) Eglurwch y patrwm sy'n ymddangos yn y rhifau hyn.

3, 6, 10, 15

+3 +4 +5

Adio un yn fwy bob tro. Y rhif nesaf yw $15 + 6 = 21$.

Y rhain yw'r rhifau trionglog!

d) Ceisiwch ddarganfod fformiwla ar gyfer cyfanswm yr $n$ rhif ciwb cyntaf.

$1^3 = 1^2$

$1^3 + 2^3 = 3^2$

$1^3 + 2^3 + 3^3 = 6^2$

$1^3 + 2^3 + 3^3 + 4^3 = 10^2$

ac yn y blaen

Y fformiwla ar gyfer yr $n$fed rhif trionglog yw $\frac{n(n+1)}{2}$

E.e. $\frac{4(4+1)}{2} = \frac{4 \times 5}{2}$


$= \frac{20}{2}$

$= 10$

Felly $1^3 + 2^3 + 3^3 + \cdots + n^3 = \left(\frac{n(n+1)}{2}\right)^2$

2) Mae rhwyd yn siâp dau ddimensiwn sy’n gallu cael ei blygu i ffurfio gwrthrych tri dimensiwn.

a) Pa rai o’r rhwydi isod sy’n plygu i ffurfio ciwb? Ticiwch (✓) bob un sy’n gweithio.



b) Ar gyfer y rhwydi uchod sy’n plygu i ffurfio ciwb, ychwanegwch ddotiau addas fel bod y rhwyd yn ffurfio **dis arferol**.

*Nodyn*: Ar ddis arferol, mae’r dotiau ar wynebau cyferbyn bob amser yn adio i roi saith.

